OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1215

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

### RHAN 1

### DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2018.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "anifail buchol llawn-dwf" ("*adult bovine animal*") yw anifail buchol sy'n wyth mis oed neu ragor;

ystyr "carcas buchol" ("*bovine carcase*") yw carcas neu hanner carcas anifail buchol llawn-dwf a gigyddwyd ac sy'n dwyn marc iechyd y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Phennod III o Adran 1 o Atodiad 1 iddo, sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(**1**); ac yn y diffiniad hwn—

(a) ystyr "carcas" yw holl gorff anifail a gigyddwyd fel y'i cyflwynir ar ôl ei waedu, ei ddiberfeddu a thynnu ei groen, a

(b) ystyr "hanner carcas" yw'r cynnyrch a geir drwy wahanu'r carcas yn gymesur drwy ganol pob fertebra gyddfol, dorsal, meingefnol a sacrol a thrwy ganol y sternwm a'r symffysis isgiopwbig;

ystyr "carcas mochyn" ("*pig carcase*") yw corff mochyn glân sydd wedi ei gigydda, wedi ei waedu ac wedi ei ddiberfeddu, yn gyfan ynteu wedi ei rannu ar hyd y llinell ganol;

ystyr "cyfathrebiad rhagnodedig" ("*prescribed communication*") yw cyfathrebiad o'r canlyniadau dosbarthu yn unol â gofynion Erthygl 1 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn;

ystyr "darpariaeth eidion Ewropeaidd" ("*European beef provision*") yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 1, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno;

ystyr "darpariaeth moch Ewropeaidd" ("*European pig provision*") yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 2, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno;

ystyr "dosbarthu" ("*classification*") yw—

(**1**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t 206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 6).

(a) dosbarthu carcasau buchol yn unol â'r darpariaethau eidion Ewropeaidd, neu

(b) dosbarthu carcasau moch yn unol â'r darpariaethau moch Ewropeaidd a rheoliad 14,

yn ôl y digwydd, ac mae termau cytras i'w dehongli yn unol â hynny;

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") yw person sy'n cynnal busnes lladd-dy cymeradwy;

ystyr "lladd-dy cymeradwy" ("*approved slaughterhouse*") yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda anifeiliaid buchol llawn-dwf neu foch, y mae eu cig wedi ei fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl ac sydd wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid(**2**);

ystyr "mochyn glân" ("*clean pig*") yw mochyn sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer bridio;

ystyr "Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn" ("*Commission Delegated Regulation*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 sy'n cydategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(**3**);

ystyr "Rheoliad (EU) 2013" ("*Regulation (EU) 2013*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;(**4**)

ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn" ("*Commission Implementing Regulation*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 sy'n gosod rheolau ar gymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(**5**);

ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(**6**);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn, ond nid yw'n cynnwys person a benodir er mwyn ystyried apêl o dan reoliad 10.

(2) Mae i'r termau eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir y termau Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn Rheoliad (EU) 2013, Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, yr ystyron a ddygir gan y termau cyfatebol Saesneg yn y Rheoliadau hynny.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at—

(a) Rheoliad (EU) 2013,

(b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu

(c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn,

i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(**2**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1981 (OJ Rhif L 285, 1.11.2017, t. 10).
(**3**) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t.. 74 .
(**4**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).
(**5**) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103.
(**6**) O.S. 2011/1826 (Cy. 198).

### Darpariaethau trosiannol

**3.** Mae unrhyw hysbysiad, trwydded, cymeradwyaeth neu awdurdodiad a roddwyd neu a ganiatawyd o dan Reoliadau 2011 ac sy'n effeithiol pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym yn aros mewn grym fel pe baent wedi eu rhoi neu wedi eu caniatáu o dan y Rheoliadau hyn.

### Dirymu

**4.** Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau 2011; a

(b) rheoliad 2 o Reoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013(**7**).

(**7**) O.S. 2013/3270 (Cy. 320).